

HIGHWAYS, WALES

2009 Rhif 4

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU
(CEFNFFORDD ABERTAWE I
FANCEINION (YR A483) GWELLIANT
LLANDYSILIO) 2009**

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir ‘yr awdurdod caffael’ yn y Gorchymyn hwn) yn gwneud y Gorchymyn canlynol-

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, awdurdodir yr awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246 a 250 o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽¹⁾ ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981⁽²⁾ a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi a phob pŵer⁽³⁾ galluogi arall, drwy hyn i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros dir a ddisgrifir ym mharagraff 3 at ddibenion:

- (a) adeiladu'r gefnffordd newydd o bwynt ar y gefnffordd bresennol tua 181 o fetrau i'r de o ganol cyffordd y B4393/yr A483, yn ymestyn tua'r gogledd yn gyffredinol, ac yn gorffen wrth bwynt tua 32 o fetrau i'r gogledd o ganol y fynedfa i'r eiddo o'r enw 'The Crest' yng Nghymuned Llandysilio yn Sir Powys, yn unol â'r Gorchymyn Llinell;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd yn y Gymuned a'r Sir a enwyd uchod, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;
- (c) eu defnyddio gan yr awdurdod caffael mewn cysylltiad â gwella'r priffyrdd a chyflawni'r gwaith arall a nodir uchod, ac

(ch) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol y bydd bodolaeth neu ddefnyddio rhai o'r priffyrdd y bwriedir eu gwella yn eu cael ar eu cyffiniau.

2. Adneuwyd copïau o'r Gorchymyn Llinell a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl ac o'r mapiau sy'n mynd gyda hwy ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn erthygl 6.

3. (1) Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ac a amlinellwyd a'i ddangos wedi'i liwio'n binc gydag ymylon coch ar y map y paratowyd dau gopi ohono, sydd wedi'i selio â sêl gyffredin yr awdurdod caffael ac a farciwyd â "Map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) Gwelliant Llandysilio) 2009".

(2) Disgrifir yr hawliau newydd sydd i'w prynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yn yr Atodlen a dangosir y tir wedi'i liwio'n las gydag ymylon coch ar y map a enwyd.

4. Ymgorfforir Rhannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 drwy hyn gyda'r Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau bod rhaid i gyfeiriadau at yr ymgymeriad yn y Rhannau a enwyd o'r Atodlen a enwyd gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodwyd ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w hadeiladu arno.

5. At ddibenion darpariaethau Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'i hymgorfforwyd yn y Gorchymyn, bydd y pellter rhagnodedig mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan dir sy'n cyffinio â'r gweithfeydd sydd i'w hadeiladu ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn bellter ochrol o'r gweithfeydd a enwyd ar bob ochr iddynt ag sy'n gyfartal ar bob pwynt ar hyd y gweithfeydd hynny â hanner dyfnder y wythïen o dan wyneb naturiol y ddaear wrth y pwynt hwnnw neu 37 o fetrau p'un bynnag yw'r mwyaf.

6. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr ‘y gefnffordd’ (‘the trunk road’) yw cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483);

ystyr ‘y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl’ (‘the Side Roads Order’) yw ‘Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (Ffyrdd Ymyl Gwelliant Llandysilio) 2009’;

ystyr ‘y Gorchymyn Llinell’ (‘the Line Order’) yw ‘Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (Gwelliant Llandysilio) 2009’, a

ystyr ‘y map’ (‘the map’) yw’r map a farciwyd ‘Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) Gwelliant Llandysilio) 2009’, a lofnodwyd gan swyddog i’r awdurdod caffael, a seliwyd â sêl gyffredin yr awdurdod caffael ac a adneuwyd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

7. Enw’r Gorchymyn hwn yw ‘Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) Gwelliant Llandysilio) 2009’.

Dilyswyd SÊL GORFFORAETHOL GWEINIDOGION CYMRU sydd wedi’i gosod isod gan

Llofnodwyd gan un o swyddogion Llywodraeth
Cynulliad Cymru.

Dyddiedig 3 Ionawr 2009

- (1) 1980 p.66
- (2) 1981 p.67
- (3) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU
(CEFNFFORDD ABERTAWE I
FANCEINION (YR A483) GWELLIANT
LLANDYSILIO) 2009**

**PRYNU GORFODOL TIR A HAWLIAU
NEWYDD YN LLANDYSILIO,
POWYS.**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru ar 3 Ionawr 2009 wedi gwneud 'Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) Gwelliant Llandysilio) 2009, o dan adrannau 239, 240, 246 a 250 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981 a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi. Bydd y Gorchymyn yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod er mwyn:-

- (a) adeiladau'r gefnffordd newydd o bwynt ar y gefnffordd bresennol

tua 181 o fetrau i'r de o ganol
cyffordd y B4393/yr A483 hyd
at bwynt tua 32 o fetrau i'r
gogledd o ganol y fynedfa i'r
eiddo o'r enw 'The Crest' yng
Nghymuned Llandysilio yn Sir
Powys, yn unol â'r Gorchymyn
Llinell cysylltiedig;

- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a
darparu mynedfeydd newydd i
fangreodd yn y Gymuned a'r
Sir a enwyd, yn unol â'r
Gorchymyn Ffyrdd Ymyl
cysylltiedig;
- (c) eu defnyddio gan Weinidogion
Cymru mewn cysylltiad â
gwella'r priffyrdd a chyflawni'r
gwaith arall a nodir uchod, ac
- (ch) lliniaru unrhyw effeithiau
andwyol y bydd bodolaeth neu
ddefnyddio rhai o'r priffyrdd y
bwriedir eu gwella yn eu hachosi
ar gyffiniau'r priffyrdd hynny.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn fel y'i gwnaed
ac o'r map sy'n mynd gydag ef ar bob adeg
resymol rhwng 16 Ionawr 2009 a 27 Chwefror
2009 yn swyddfeydd Cyngor Sir Powys,
Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru,
Autopalace, Fiveways, Llandrindod, Powys
LD1 5HU; Llyfrgell y Trallwng, Brook Street,
Y Trallwng, Powys SY21 7PH; Swyddfa'r Post,
Siop y Spar, Llandysilio, Powys; a Llywodraeth
Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio
Strategol, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu
Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd CF10
3NQ.

Daw'r Gorchymyn fel y'i gwnaed i rym ar y
dyddiad y caiff yr Hysbysiad hwn ei gyhoeddi
gyntaf ond caiff person a dramgwyddir gan y
Gorchymyn, drwy wneud cais i'r Uchel Lys o
fewn chwe wythnos i ddyddiad ei weithredu,
gwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail -

- a. nad oes pŵer i roi'r awdurdodiad a roddir
gan y Gorchymyn, neu

- b. bod ei fuddiant wedi ei ragfarnu'n sylweddol gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad statudol sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r hysbysiad cyhoeddus yn <http://wales.gov.uk/?lang=cy> (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Gorchmynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd', '2009').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

DISGRIFIAD O'R TIR A'R HAWLIAU NEWYDD

SYLWER

- a. Nodir y tir a gynhwysir ym mhob eitem isod ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn trwy gyfrwng y rhif neu'r rhifau yn erbyn yr eitem honno isod.
- b. Mae cyfeiriadau at berchnogaeth yn gyfeiriadau at berchnogaeth neu berchnogaeth honedig adeg paratoi'r Gorchymyn ac fe'u rhoddir er mwyn nodi'r tir yn unig.

Yng Nghymuned Llandysilio:-

Rhan o Gefnffordd yr A483 a rhan o'r tir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; Rhan o'r tir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; Rhan o Gefnffordd yr A483, rhan o'r B4393, Canal Road, a rhan o'r tir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; Rhan o'r tir pori i'r de o'r B4393 Canal Road; oll ym mherchnogaeth Mr J R Wingfield (Plotiau 1, 1a, 1b, 1c, 1d ac 1e).

Rhan o'r tir pori i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483, oll ym mherchnogaeth Mr C M Pryce & Mrs E Pryce (Plotiau 2, 2a, 2b a 2c).

Rhan o Gefnffordd yr A483, y B4393 a thiroedd y gofeb ryfel, ym mherchnogaeth Cyngor Cymuned Llandysilio (Plot 3).

Rhan o'r B4393 ym mherchnogaeth Mr M Riley (Plot 4).

Rhan o'r tir pori i'r gogledd o'r B4393; Rhan o Gefnffordd yr A483, i'r de o'r B4393 Canal Road; Rhan o Gefnffordd yr A483, i'r gogledd o'r U2228, Parsons Lane; oll ym mherchnogaeth Gweinidogion Cymru (Plotiau 5, 5a a 5b).

Rhan o'r B4393 a rhan o'r ffordd fynediad i Cath-Y-Mar a Homeleigh, ym mherchnogaeth Mr R B Bayliss & Mrs M J Bayliss (Plot 6).

Rhan o'r B4393 a rhan o'r ffordd fynediad i Cath-Y-Mar a Homeleigh, ym mherchnogaeth Mr C Roberts & Mrs J Roberts (Plot 7).

Rhan o'r B4393, ym mherchnogaeth Mr S W Jary (Plot 8).

Rhan o'r B4393, ym mherchnogaeth Mr S W Godspell & Miss S M Brooks (Plot 9).

Rhan o'r B4393, ym mherchnogaeth Mr P A Hendry & Mrs S Hendry (Plot 10).

Rhan o'r B4393, ym mherchnogaeth Mr R F Lightfoot & Mrs J Lightfoot (Plot 11).

Rhan o'r B4393, ym mherchnogaeth Mr G Breeze & Mrs C Breeze (Plot 12).

Rhan o'r B4393, ym mherchnogaeth Mr G F Cliffe & Mrs J H Cliffe (Plot 13).

Rhan o'r B4393, ym mherchnogaeth Mrs S M Jay (Plot 14).

Rhan o'r B4393, ym mherchnogaeth Mrs B Jones (Plot 15).

Rhan o dir prysgwydd i'r cefn o Cath y Mar, oll ym mherchnogaeth Holtite Limited (Plotiau 16, 16a ac 16b).

Rhan o'r tir pori sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau dros dir pori sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal y briffordd newydd a ffens moch daear dros dir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; oll ym mherchnogaeth Mr M W Jones (Plotiau 17, 17a, 17b, 17c, 17d, 17e, 17f a 17g).

Rhan o'r tir pori sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau'r briffordd newydd dros dir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau priffyrdd dros dir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; oll ym mherchnogaeth Mr W S Turner & Miss O Turner (Plotiau 18, 18a, 18b, 18c, 18d, 18e, 18f, 18g, 18h, 18j, 18k a 18m).

Rhan o'r tir pori sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau priffyrdd dros dir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; oll ym mherchnogaeth Mr D M Foulkes (Plotiau 19, 19b, 19c, 19d, 19e, 19f, 19g, 19h ac 19j).

Rhan o'r tir pori sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau priffyrdd dros dir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; oll ym mherchnogaeth Mr R G Jones & Mrs I V Jones (Plotiau 20, 20a, 20b, 20c ac 20d).

Rhan o'r U2228, Parsons Lane, tir pori a daliad fferm sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; rhan o'r tir pori a daliad fferm sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; rhan o dir pori i'r de o'r U2228, Parsons Lane; rhan o'r tir pori sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; rhan o'r U2228, Parsons

Lane; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau priffyrdd dros dir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau'r briffordd newydd dros dir pori a daliad fferm sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; oll ym mherchnogaeth Cyngor Sir Powys (Plotiau 21, 21a, 21b, 21c, 21d, 21e, 21f, 21g, 21h ac 21j).

Rhan o Gefnffordd yr A483 a thir pori sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; rhan o'r U2229, Church Lane, a thir pori sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; Rhan o'r tir pori sy'n gorwedd i'r gogledd o'r U2228, Parsons Lane, ac i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau priffyrdd dros dir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; oll ym mherchnogaeth Mr G Doulby (Plotiau 22, 22a, 22c, 22d, 22e, 22f, 22g, 22h, 22j, 22k, 22m a 22n).

Rhan o Gefnffordd yr A483 a rhan o'r tir pori sy'n gorwedd i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483; rhan o'r tir pori sy'n gorwedd i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau priffyrdd dros dir pori i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal traeniau i gydadfer llifogydd a thraeniau priffyrdd dros dir pori i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483; oll ym mherchnogaeth Mr P Davies & Mrs C E Davies (Plotiau 23, 23a, 23b, 23c a 23d).

Rhan o'r U2229, Church Lane; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau'r briffordd newydd dros dir pori i'r gorllewin o Gefnffordd yr A483; oll ym mherchnogaeth Mr D Cooper & Mrs A Cooper (Plotiau 24, 24a a 24b).

Rhan o Gefnffordd yr A483 a rhan o'r tir pori sy'n gorwedd i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483; yr hawl i fynd i mewn i adeiladu a chynnal cloddiau a thraeniau priffyrdd dros dir pori i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483; oll ym mherchnogaeth Mr M Pugh & Mrs R Pugh (Plotiau 25 a 25a).

M D BURNELL

YR IS-ADRAN CYNLLUNIO A
LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH
LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU